# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 17 Mehefin 2015 i'w hateb ar 24 Mehefin 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

1. **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ofal iechyd cymunedol yng Nghymru? OAQ(4)0619(HSS)

2. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella'r broses o reoleiddio'r gwaith o arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru? OAQ(4)0605(HSS)

3. **Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y canran o bobl gymwys sydd cael brechiad yn erbyn yr eryr? OAQ(4)0615(HSS)**W**

4. **David Rees (Aberafan):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i leihau amseroedd aros ar gyfer asesiadau a thriniaeth iechyd meddwl yng Nghymru? OAQ(4)0618(HSS)

5. **Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd ymateb ambiwlansys yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0609(HSS)

6. **Altaf Hussein (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella gwasanaethau gofal cynradd yng Nghymru? OAQ(4)0616(HSS)

7. **Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa gynnydd a wnaed o ran uno cyllidebau gofal ac iechyd ers 2011? OAQ(4)0610(HSS)**W**

8. **Janet Haworth (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am arferion gwaith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru? OAQ(4)0614(HSS)

9. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effeithiolrwydd polisïau sy'n anelu at wneud gwasanaethau'r GIG yn hygyrch i bobl ag anableddau? OAQ(4)0613(HSS)

10. **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lywodraethiant byrddau iechyd yng Nghymru? OAQ(4)0608(HSS)

11. **Leanne Wood (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Law yn Llaw at Iechyd: Rhaglen De Cymru? OAQ(4)0606(HSS)

12. **Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y strategaeth ystadau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(4)0611(HSS)**W**

13. **Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y pwysau sydd ar y sector gofal? OAQ(4)0612(HSS)**W**

14. **Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglenni brechu yng Nghymru? OAQ(4)0607(HSS)

**15. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y manteision i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o gydweithio rhwng y sectorau iechyd a chwaraeon? OAQ(4)0620(HSS)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

**1. Mick Antoniw (Pontypridd):** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal gydag aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol mewn perthynas ag adrannau 70 i 76 o'r papur gorchymyn ar Fil Cymru o fis Mawrth 2014 sy'n ymwneud â chreu cyfrifoldebau cyllidol newydd? OAQ(4)0080(CG)

## Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.